



Bwletin Awdurdod S4C
Cyfarfod 320 – 19 Mawrth 2009
S4C, Caerdydd

Mae'r bwletin hwn yn adrodd ar gyfarfod yr Awdurdod a gynhaliwyd ar 19 Mawrth 2009.

1. Materion yn codi o gofnodion cyfarfod 319

Derbyniwyd cofnodion cyfarfod 319.

2. Adroddiad y Cadeirydd

Esboniodd y Cadeirydd ei fod yn disgwyl cadarnhad oddi wrth y DCMS parthed penodiad Aelod newydd.

Roedd wedi mynychu Clwb Busnes Caerdydd i wrando ar Syr Michael Lyons yn ddiweddar.

Diolchodd i bawb a oedd wedi bod yn gysylltiedig â threfnu'r penwythnos o ddigwyddiadau yn Llandudno.

Nododd y Cadeirydd ei fod wedi cyfarfod gydag asesydd y Nod Siarter yn ddiweddar.

Cynhaliwyd cyfarfod yng Nghaernarfon gydag arbenigwyr i drafod agweddau ieithyddol rhaglenni S4C.

Roedd y Cadeirydd ac IJ wedi cyfarfod gyda Collette Bowe a Philip Graaf o Ofcom. Nododd y Cadeirydd ei fod ef ac IJ wedi bod ger bron Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant y Cynulliad i roi tystiolaeth wythnos diwethaf. Yn dilyn y sesiwn dystiolaeth mynychwyd cyfarfod cinio gyda'r Gweinidog dros Gyfathrebu, Technoleg a Darlledu, yr Arglwydd Carter; y Dirprwy Brif Weinidog, Ieuan Wyn Jones AC, a nifer o westeion i drafod gwaith Prydain Ddigidol.

Yn ogystal, roedd y Gweinidog Treftadaeth, Alun Ffred Jones wedi ymweld â swyddfa S4C yng Nghaernarfon yn ddiweddar.

3. Adroddiad y Prif Weithredwr

Cyflwynodd y Prif Weithredwr ei hadroddiad.

Rhoddodd ddiweddariad i'r Awdurdod parthed datblygiadau yn ymwneud ag Adolygiad Ofcom.

Roedd Jeremy Hunt AS, llefarydd yr wrthblaid ar faterion diwylliant, cyfryngau a chwaraeon wedi ymweld ag S4C yn ddiweddar ynghyd â Nick Bourne AC a Paul Davies AC.

Esboniwyd y broses graffu ar gyfer yr LCO drafft yn ymwneud â phwerau deddfu ym maes yr iaith Gymraeg sydd wedi ei gyhoeddi. Cyflwynwyd ymateb drafft i'w ddanfôn at Bwyllgor Craffu'r Cynulliad. Trafodwyd a Chymeradwywyd yr ymateb i'w gyflwyno i'r Pwyllgor Craffu.

4. Materion Eraill

Yn ogystal, trafodwyd/nodwyd y materion canlynol:

- Adroddiad y Cyfarwyddwr Comisiynu
- Adroddiad Cwynion a Chydymffurfiaeth
- Adroddiad Ymchwil